Y Wenynen Fach Wahanol

Colli Cyfle / Cyfrwystra / Bod yn benderfynol

Drwy'r dydd bu'r wenynen fach wrthi'n ddiwyd yn cario neithdar i'r cwch. Bu'n hedfan o flodyn i flodyn gan sipian neithdar o un i'r llall. Yn ôl â hi i'r cwch. Roedd y gwenyn eraill wrthi'n brysur yn casglu o flodyn i flodyn. Byddai rhai o'r gwenyn yn dawnsio yn y cwch. Roedd hon yn ddawns bwysig iawn. Fe fydden nhw'n siglo'u penolau yn ôl a blaen. Roedd y ddawns yn helpu'r gwenyn eraill i wybod i ba gyfeiriad i fynd i chwilio am neithdar. Yna fe fydden nhw i gyd yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Ond doedd y wenynen fach brysur ddim am ddilyn y lleill. Roedd hi am fynd i'r cyfeiriad arall. Roedd hi bob amser eisiau bod yn wahanol i'r gweddill. I ffwrdd â hi i'r cyfeiriad arall. Hedfanodd o flodyn i flodyn. Ond doedd fawr o neithdar i'w gael yn y blodau hyn. Erbyn hyn roedd hi wedi blino'n lan. Doedd ganddi fawr o nerth i hedfan yn ôl i'r cwch at y gwenyn eraill. Gwelai'r haul yn machlud dros y gorwel. Roedd hi'n dechrau nosi. Beth fyddai'r gwenyn eraill yn feddwl ohoni! Tybed fydden nhw'n poeni amdani? Roedd ei chorff yn flinedig a doedd ganddi ddim nerth i hedfan o un blodyn i'r llall.

Gwelodd flodyn coch llachar yn tyfu wrth graig fawr. Cododd ar ei hadenydd i geisio hedfan tuag at y blodyn coch. Ond roedd hi mor flinedig. Cyrhaeddodd y blodyn coch. Roedd ei betalau mawr coch yn dechrau cau am y nos.

"Wyt ti eisiau cysgu ar fy mhetalau sidan i?", gofynnodd y blodyn coch iddi.

"Os gweli'n dda", meddai hithau, "rwyf wedi blino'n lan."

"Pam felly?" gofynnodd y blodyn coch iddi.

"Rydw i wedi bod wrthi drwy'r dydd yn cario neithdar yn ôl i'r cwch. Mae hi wedi bod yn waith caled iawn. Does yna fawr o neithdar yn y blodau sydd yn y caeau o gwmpas," meddai hithau, bron a chysgu erbyn hyn.

"Dim ond ti fyddai i'n ei weld o gwmpas y caeau hyn. Pam na

fydd y gwenyn eraill yn dod yma?" gofynnodd y blodyn coch.
"Wel" meddai'r wenynen fach. "Mae'r gwenyn eraill i gyd yn mynd i gyfeiriad arall. Mae yna ddigon o neithdar yn y blodau yn y caeau rheiny. Ond mi ydw i eisiau bod yn wahanol i'r gwenyn eraill. Dydw i ddim eisiau gwrando ar y lleill."
Roedd y blodyn coch yn gwrando ar y wenynen fach.
"Pam fydd un wenynen yn dawnsio yn y cwch mi fydd y gwenyn eraill i gyd yn hedfan i ffwrdd ond mi fydda i bob amser yn hedfan i'r cyfeiriad arall. Ond bob tro, mae nhw'n cario mwy o neithdar i'r cwch nag ydw i."
"Beth am i ti ddilyn y gwenyn eraill am unwaith?" gofynnodd y blodyn coch.
Gwrandawodd y wenynen fach ar yr hyn oedd gan y blodyn coch i'w ddweud. Efallai ei fod yn iawn wedi'r cwbl.
Caeodd y blodyn ei betalau'n ofalus a lapio'n dyn am y wenynen fach. Aeth hithau i gysgu. Breuddwydiodd ei bod yn hedfan gyda'r gwenyn eraill a'i bod yn cario neithdar i'r cwch yn union fel y gwenyn eraill. Dyna wnaeth hi ar ôl hynny. Dilyn y gwenyn eraill.

Weithiau, O Dduw, mi ydw i eisiau bod yn wahanol i bawb arall. Tybed ydw i'n iawn bob tro? Amen.

✦ Sut fyddech chi'n disgrifio'r wenynen fach wahanol?
✦ Oes rhaid i ni ddysgu cydweithiio a chyd-chwarae? Sut mae gwneud hynny?